# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Robin Wyn Williams
**Parti:** Y Grŵp Annibynnol **Ward:** Twrcelyn

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Panel Adolygu Tal a Graddfeydd | |
| Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau | |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | |
| Pwyllgor Trwyddedu | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Is-Gadeirydd 2018-2020 |
| - Llywodraethwr / Ysgol David Hughes, Porthaethwy | Aelod ers 2017 |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Porthaethwy | Aelod ers 2017 |
| - Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Aelod ers 2018<br><br>Presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r uchod i gyd |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy’n parhau i fod â'r anrhydedd o gynrychioli trigolion Ward Aethwy ynghyd â’m cyd-aelodau.

Yn ogystal â gwasanaethu ar y pwyllgorau uchod, rwy'n mynychu nifer o gyfarfodydd eraill trwy'r ward yn rheolaidd. Rwy'n gynghorydd tref ym Mhorthaethwy ac yn mynychu Cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau Cyllid a Chynllunio yn rheolaidd. Rwyf hefyd yn mynychu Cyfarfodydd y Cynghorau Cymuned yn Llanfairpwll a Phenmynydd yn achlysurol.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi bod yn gweithio ar gael Adran Briffyrdd y DU i wneud gwaith trwsio ar y goleuadau ar Bont Grog y Borth a gwnaed rhywfaint o gynnydd yn hyn o beth cyn dechrau COVID-19.

Rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn gydag amrywiol randdeiliaid ynghylch safle'r hen gapel yn Ffordd y Ffair, Porthaethwy.

Rwy’n parhau i weithio’n agos gyda’r Adran Briffyrdd yn Ynys Môn i sicrhau bod y cynlluniau lliniaru llifogydd arfaethedig ar gyfer Porthaethwy a Llanfairpwll yn cael eu cynllunio a’u cyflawni yn dilyn y llifogydd ofnadwy ym mis Tachwedd 2017.

Rwyf wedi delio â nifer o faterion ar ran trigolion lleol y ward yn ymwneud â thai, cynllunio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, priffyrdd a materion amgylcheddol.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Cynorthwyais i sefydlu a rhedeg y banc bwyd dros dro a'r grŵp cymunedol ym Mhorthaethwy mewn ymateb i COVID-19.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi’u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi’i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

## 5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Mynychais nifer o weithgareddau yn fy ward yn ystod y flwyddyn. Rwyf hefyd wedi cynrychioli'r Cyngor Sir mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cenedlaethol. Gellir cysylltu â mi dros y ffôn, e-bost a thrwy gyfryngau cymdeithasol ac 'rwy'n ceisio ymateb i bob ymholiad neu bryder a godir gan breswylwyr cyn gynted ag y gallaf.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Robin Wyn Williams

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Robin Wyn Williams** | **Mai 2020** |